# Cynllun Corfforaethol 2014/15

CRONFA LOTERI FAWR
BIG LOTTERY FUND














**Cynllun Corfforaethol 2014/15**
**Copïau pellach ar gael gan:**


| | |
|---|---|
| E-bost | ymholiadau.cymru@cronfaloterifawr.org.uk |
| Ffôn | 0300 123 0735 |
| Ffôn testun | 0845 6 02 16 59 (ar gyfer pobl sydd â nam ar y clyw) |
| Ein gwefan | www.cronfaloterifawr.org.uk |


**Hygyrchedd**
Cysylltwch â ni i drafod unrhyw anghenion cyfathrebu penodol sydd gennych.

**Ein hegwyddorion cydraddoldeb**
Hyrwyddo hygyrchedd; gwerthfawrogi amrywiaeth ddiwylliannol; hyrwyddo cymryd rhan; hyrwyddo cyfle cyfartal; hyrwyddo cymunedau cynhwysol; lleihau anfantais ac eithrio. Ewch i'n gwefan am fwy o wybodaeth.

**Rydym yn gofalu am yr amgylchedd**
Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ceisio lleihau ei heffaith negyddol ar yr amgylchedd ac yn defnyddio adnoddau cynaliadwy priodol yn unig.

**Ein Cenhadaeth**
Helpu cymunedau a'r bobl mewn angen mwyaf.

**Ein Gwerthoedd**
Rydym wedi adnabod tri gwerth sy'n sail i'n holl waith: bod yn gefnogol ac yn barod i helpu, gwneud y defnydd gorau o arian Loteri a defnyddio gwybodaeth a thystiolaeth. Gallwch gael gwybod mwy amdanom ni, ein gwerthoedd a'r rhaglenni ariannu rydym yn eu cynnig drwy fynd i'n gwefan, www.cronfaloterifawr.org.uk

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ymrwymedig i werthfawrogi amrywiaeth a hyrwyddo cyfle cyfartal, fel dyfarnwr grantiau ac fel cyflogwr. Bydd y Gronfa Loteri Fawr yn ceisio mabwysiadu ymagwedd gynhwysol at sicrhau bod ymgeiswyr a deiliaid grantiau, budd-ddeiliaid, ymgeiswyr am swyddi a gweithwyr yn cael eu trin yn deg.

**© Cronfa Loteri Fawr, Gorffennaf 2014**

Yn dyfarnu arian
**Y Loteri Genedlaethol**
Awarding funds from
**The National Lottery®**

# Cronfa Loteri Fawr
# Cynllun Corfforaethol 2014/15

## Cynnwys

1. Cyflwyniad
2. Amdanom ni
3. Ynglŷn â'r cynllun hwn
4. Cyllidebau grant
5. Cyllideb costau gweithredu
6. Amcanion corfforaethol ar gyfer 2014/15

# Cyflwyniad

**Cyflwyniad gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr**

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn gyfrifol am ddosbarthu 40 y cant o'r holl arian a godir ar gyfer achosion da gan y Loteri Genedlaethol. Mae hyn gwerth tuag 11 ceiniog o bob punt sy'n cael ei gwario ar docynnau'r Loteri Genedlaethol, cyfanswm o tua £700 miliwn bob blwyddyn.

Fe'n sefydlwyd 10 mlynedd yn ôl, ym mis Mehefin 2004, ac ers hynny rydym wedi dyfarnu dros £6 biliwn i brosiectau sy'n cefnogi iechyd, addysg, yr amgylchedd a dibenion elusennol.

Bob blwyddyn dyfernir tua 90 y cant o'n hariannu'n uniongyrchol i fudiadau'r sector gwirfoddol a chymunedol. Erys ein cenhadaeth heb ei newid. Rydym yn ymrwymedig i helpu'r cymunedau a'r bobl mewn angen mwyaf.

Eleni rydym yn datblygu Fframwaith Strategol newydd ar gyfer 2015 ymlaen. I'n helpu ni rydym yn ymgysylltu â phobl trwy ein gwefan Eich Barn Ein Dyfodol a llawer o drafodaethau bwrdd crwn a digwyddiadau budd-ddeiliaid. Pan fyddwn yn pennu braslun ein fframwaith byddwn yn datblygu cynllun busnes i'w gyflwyno.

Dyma flwyddyn o newid ar gyfer y Gronfa wrth i ni barhau i sefydlogi ein system weithredu newydd, ymchwilio i'n cyfeiriad ar gyfer y dyfodol trwy'r Fframwaith Strategol a sicrhau ein bod yn addas i'r diben yn y dyfodol. Fel bob amser mae ein staff rhagorol a phartneriaid cefnogol yn ein rhoi ni mewn sefyllfa dda i wynebu heriau'r dyfodol.

**Dawn Austwick**
**Prif Weithredwr**

**Peter Ainsworth**
**Cadeirydd**

# Amdanom ni

Sefydlwyd y Gronfa Loteri Fawr (y Gronfa) gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 2006.

Ein cenhadaeth yw helpu cymunedau a'r bobl mewn angen mwyaf.

Ein cylch gwaith ariannu yw cefnogi iechyd, addysg, yr amgylchedd a dibenion elusennol ar draws y DU. Ar gyfartaledd rydym yn ariannu tua 12,000 o brosiectau bob blwyddyn gyda thua £700 miliwn gan y Loteri Genedlaethol. Gallwn hefyd ddosbarthu arian nad yw'n dod o'r Loteri ar ran mudiadau eraill.

Mae mwy o wybodaeth am y Gronfa Loteri Fawr, gan gynnwys sut rydym wedi'n trefnu, ar gael ar ein gwefan yn:
www.biglotteryfund.org.uk/welsh/about-big/our-people

# Ynglŷn â'r Cynllun hwn

Mae'r Gronfa'n gosod sylfaen ar gyfer strategaeth ariannu i fynd â ni y tu hwnt i 2015. Ym mis Chwefror dechreuwyd ar y sgwrs Eich Barn Ein Dyfodol gydag elusennau, mentrau cymdeithasol, grwpiau cymunedol, budd-ddeiliaid a'r cyhoedd. Bydd y canfyddiadau'n cyfeirio sut y byddwn yn defnyddio gwerth £4 biliwn o ariannu rhwng 2015 a 2021. Caiff y Fframwaith Strategol ei gyhoeddi yng ngwanwyn 2015, ac yn ystod 2014/15 byddwn yn datblygu model a chynllun busnes i'w gefnogi.

Bydd y broses gynllunio gynhwysfawr hon hefyd yn ymgorffori ein hymateb i Adroddiad yr Adolygiad Teirblwydd a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet ym mis Mehefin 2014, yr ydym yn croesawu ei ganfyddiadau.

Eleni rydym yn cwblhau ein strategaeth ariannu bresennol gydag ystod o raglenni sy'n cynnig cymysgedd o ariannu ymatebol a strategol ar draws ein portffolios rhaglenni yng Nghymru, Lloegr, Yr Alban, Gogledd Iwerddon ac ar draws y DU.

Yn ogystal â chyflwyno'r busnes craidd hwn byddwn yn parhau i fireinio'r system rheoli ariannu newydd a gyflwynwyd yn 2013/14 i ddisodli system a oedd wedi bod yn weithredol ers 13 mlynedd. Mae'r system newydd yn weithredol bellach ac rydym yn bwriadu cau'r prosiect datblygu yn hydref 2014 gydag unrhyw welliannau pellach i'r system yn cael eu cyflwyno trwy sianeli gweithredu arferol.

# Cyllidebau grant

Mae'r tabl isod yn dangos y cyllidebau cymeradwy ar gyfer rhaglenni grant a gaiff eu dylunio yn ystod y flwyddyn. Cyhoeddir rhaglenni trwy ein gwefan pan fyddant yn barod i'w lansio. Sylwer y defnyddir 'teitlau gweithio' mewn rhai achosion ac y bydd yr enw yn cael ei ddiwygio pan fyddwn yn cwblhau adeiladu'r rhaglenni hyn.

Gan fod y dadansoddiad hwn o'r gyllideb yn cael ei gynhyrchu cyn diwedd y flwyddyn ariannol mae'r ffigurau'n destun addasiadau pellach, gyda chymeradwyaeth gan y Bwrdd, i gario unrhyw danwariant y mae'r cyfrifon yn ei nodi yng nghyllideb grantiau 2013/14 ymlaen.

Yn ogystal â hyn, wrth i ni ddatblygu ein portffolio ariannu, gall y symiau a ddyrennir gael eu mireinio o fewn cyfanswm cyffredinol y gyllideb grant.

| | **Cyllideb gymeradwy 2014/15 £m** |
|---|---|
| **Ariannu DU gyfan** | |
| Sefydliad Ffilm Prydain | 2.00 |
| Sgiliau Sylfaenol Ar-lein | 15.00 |
| Ein Hamgylchedd Ein Dyfodol | 30.00 |
| Arwyr yn Ôl Rownd 2 | 1.47 |
| Cymunedau Rhyngwladol | 38.60 |
| Dysgu er Effaith | 5.00 |
| Ailfeddwl Iechyd Da | 24.95 |
| Urddas (prosiectau i gefnogi pobl hŷn) | 15.00 |
| Miliynau'r Bobl | 3.80 |
| Research for impact | 5.00 |
| Dyfarniadau Unigol | 19.41 |
| Cyn-filwyr y Rhyfeloedd Byd | 1.00 |
| | **161.23** |
| **Ariannu yn Lloegr** | |
| Ageing Better (gan gynnwys y Ganolfan Heneiddio'n Well) | 119.69 |
| Arian i Bawb | 57.00 |
| Strategaeth Galluoedd | 13.94 |
| Commissioning Better Outcomes | 4.70 |
| Fulfilling Lives: A Better Start | 150.59 |
| Cronfa Parodrwydd Contractau Buddsoddi | 11.00 |
| HeadStart | 7.05 |
| Parks for People | 12.60 |
| Power to Change | 149.75 |
| Reaching Communities | 155.00 |
| Reaching Communities – Buildings | 10.14 |

| | Cyllideb gymeradwy 2014/15 £m |
|---|---|
| Dyfarniadau Unigol | 25.00 |
| Buddsoddiad Cymdeithasol – Cronfa Twf | 24.50 |
| Strategic Investments Top Up Fund | 94.00 |
| | **834.96** |
| **Ariannu yn Yr Alban** | |
| 2014 Communities | 1.14 |
| Arian i Bawb | 9.12 |
| Celebrate 2014 | 0.44 |
| Communities and Families Fund | 0.60 |
| Great Ideas – Dyfarniadau Unigol | 1.69 |
| Investing in Communities 2 | 55.00 |
| Investing in Ideas | 1.07 |
| Our Place phase 2 | 1.37 |
| Environmental Placement phase 2 | 0.15 |
| Becoming a Survivor | 0.36 |
| Sustainable Buildings | 0.08 |
| | **71.02** |
| **Ariannu yng Nghymru** | |
| Arian i Bawb | 4.00 |
| Awydd am Arloesi | 0.09 |
| Plant sy'n Derbyn Gofal | 5.00 |
| Trosglwyddo Asedau Cymunedol cam 2 | 0.28 |
| Pawb a'i Le cam 2 | 19.80 |
| Adeiladu Cymunedau | 15.00 |
| | **44.17** |
| **Ariannu yng Ngogledd Iwerddon** | |
| Arian i Bawb | 4.00 |
| Investing in Ideas | 1.89 |
| Reaching Out – Supporting Families | 7.20 |
| Contract Cefnogi Reaching Out – Supporting Families | 0.50 |
| Safe and Well | 3.70 |
| Live and Learn | 3.30 |
| Cyllideb heb ei dyrannu | 10.02 |
| | **30.61** |
| **TOTAL BUDGET** | **1,141.99** |

# Cyllideb costau gweithredu

Ein mesur effeithlonrwydd ariannol allweddol yw'r gyfran o incwm Loteri a wariwn ar ddosbarthu, a pharhawn i reoli'r costau hynny i lawr. Rydym wedi cyllidebu ar gyfer cyflawni targed 5 y cant ar ein costau craidd eleni. Mae'r arbedion angenrheidiol wedi'u hadnabod yn ein strategaeth ariannol ac mae'r Bwrdd wedi pennu cyllideb o £51.7 miliwn ar y sail hon.

Mae ein costau'n ymwneud yn bennaf â phrosesau ceisiadau a rheoli grantiau ar ôl eu gwneud, gan gynnwys yr holl gostau cefnogi. Yn ogystal â hyn mae'r gyllideb o £51.7 miliwn yn cynnwys gwariant ar gefnogaeth rheng flaen ar gyfer ymgeiswyr a derbynyddion grantiau a'r cyhoedd. Er enghraifft, gallai fod ar gyfer darparu cyngor a chymorth i fudiadau sy'n ymgeisio am arian Loteri, a hefyd ar gyfer gweithgareddau i gynnwys y cyhoedd wrth wneud penderfyniadau ar y Loteri.

Mae'r mwyafrif o'r arbedion yn cael eu cyflawni trwy ostyngiadau mewn staffio. Ar ddiwedd mis Mai 2014 roedd nifer y staff wedi gostwng 46 o'r niferoedd ar 31 Mawrth 2014, ac mae gostyngiadau pellach wedi'u cynllunio'n ddiweddarach yn y flwyddyn.

Yn ogystal â hyn, mae arbedion yn cael eu gwneud o ganlyniad i ostyngiad yn y gofod rydym yn ei feddiannu, a ddaeth yn weithredol yn fuan cyn 31 Mawrth 2014.

Nid yw'r Gronfa'n disgwyl cyflawni lefel mor uchel o arbedion o'r system rheoli ariannu newydd â'r hyn a gynlluniwyd yn wreiddiol, er hynny disgwylir y bydd arbedion eraill a adnabuwyd yn y strategaeth ariannol yn ein galluogi i gwrdd â'n targed 5 y cant ar gyfer costau gweithredu craidd eleni wrth i ni fynd i'r afael â gwella effeithlonrwydd y system.

Ein nod tymor canolig ar gyfer costau yw cyflawni model gweithredu sy'n seiliedig ar arbedion cynaliadwy, nad ydynt wedi'u gwireddu o roi'r system rheoli ariannu ar waith eto.

# Amcanion corfforaethol ar gyfer 2014/15

Mae gan y Gronfa Loteri Fawr dri amcan corfforaethol i sicrhau ei bod yn defnyddio arian achosion da'r Loteri Genedlaethol yn effeithiol ac mewn ffordd sy'n cyfateb i'w chenhadaeth a Chyfarwyddiadau Polisi'r llywodraeth. Bob blwyddyn mae'r Gronfa'n adnabod ei blaenoriaethau ar gyfer symbylu gwelliannau perfformiad a fydd yn cyflwyno'r amcanion hyn ymhellach. Mae targed gan bob maes â blaenoriaeth, ac mae'r targedau rydym yn ymrwymedig iddynt ar gyfer y flwyddyn o'n blaenau ni wedi'u hamlinellu yma.

Caiff yr amcanion a thargedau hyn eu hadolygu yn ystod y flwyddyn i'w halinio ag uchelgeisiau ein Fframwaith Strategol 2015/21.

**Effeithlonrwydd** – rydym yn rheoli arian cyhoeddus yn effeithlon. .

**Targed blynyddol** – mae mwy nag 80 y cant o'r cyfanswm cyllideb grantiau cytunedig ar gyfer 2014/15 wedi'i ymrwymo.

**Targed blynyddol** – erbyn diwedd y flwyddyn mae'r grantiau a delir i'r holl brosiectau a ariannwn o fewn 20 y cant o'r cyfanswm taliadau rydym yn ei ragfynegi.

**Targed blynyddol** – mae gwariant ar gostau gweithredu (costau craidd a rheng flaen) o fewn y gyllideb a bennwyd o £51.7 miliwn.

**Canolbwyntio ar gwsmeriaid** – Dywedodd y rhai sydd wedi holi am ein hariannu, ymgeisio amdano neu ei dderbyn ein bod yn darparu gwasanaeth ardderchog iddynt. Mae gennym berthnasoedd cryf a chadarnhaol gyda budd-ddeiliaid allweddol a'r cyhoedd yn gyffredinol.

**Targed blynyddol** – mae o leiaf 77 y cant o gwsmeriaid yn fodlon ar ein gwasanaeth.

Bydd boddhad yn cael ei bennu ar sail arolygon ar draws y DU a gyflawnir ar ein cyfer gan IPSOS MORI. Caiff samplau eu tynnu o ymholwyr cyn-ymgeisio, ymgeiswyr llwyddiannus, ymgeiswyr aflwyddiannus a deiliaid grantiau.

**Effeithiolrwydd** – mae ein rhaglenni ariannu'n dod â gwir welliannau i fywydau ein buddiolwyr.

**Targed blynyddol** – mae o leiaf 92 y cant o raglenni grantiau'n cyflawni eu gradd effeithiolrwydd gytunedig.

Caiff rhaglenni eu hasesu ar draws tri maes allweddol: pa mor dda rydym yn eu rheoli nhw, dysgu a gofnodir, ac effaith.